

# MAE'R FFORDD RYDYCH CHI'N RHENTU YN NEWID

## Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru)

**Pecyn Partneriaid**
Awst 2022

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Gweithio gyda'n gilydd**
**i roi cartref diogel i bawb**

# Cynnwys


- Cyflwyniad ar gyfer rhanddeiliaid
- Trosolwg o'r ymgyrch
- Asedau'r ymgyrch i'w rhannu â landlordiaid
- Asedau'r ymgyrch i'w rhannu â rhentwyr
- Asedau ychwanegol yr ymgyrch
- Deunyddiau hawdd eu defnyddio






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwybodaeth i Randdeiliaid

Gweithio gyda'n gilydd
i roi cartref diogel i bawb

# Cyflwyniad ar gyfer rhanddeiliaid

Ymgyrch gyfathrebu yw **“Mae’r Ffordd Rydych chi’n Rhentu yn Newid”** sydd wedi’i chynllunio i gefnogi cyflwyniad Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 pan ddaw i rym yng Nghymru o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen*. Y Ddeddf yw’r newid mwyaf i’r Gyfraith Dai yng Nghymru ers degawdau a bydd yn effeithio’n fras ar un ymhob tri o boblogaeth Cymru sy’n byw mewn cartref wedi’i rentu ar hyn o bryd, yn ogystal â’r landlordiaid sy’n eu darparu. Rydym ni eisiau i’r trosglwyddo i’r rheoliadau newydd a’u gweithrediad o dan y gyfraith hon fod mor esmwyth â phosibl i bawb.



*Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad i weithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ar 1 Rhagfyr 2022.

# Yr Ymgyrch

**Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu gwybodaeth glir i'r holl bartïon perthnasol, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol ddwyieithog i sicrhau bod landlordiaid a thenantiaid yn ymwybodol o'r newidiadau sy'n weithredol o fis Rhagfyr 2022.**







## Mae'r ymgyrch yn cynnwys:

- Cyfathrebu uniongyrchol drwy e-bost negeseuon testun a llythyron i landlordiaid ac asiantau sydd wedi cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru.
- Hysbysebu a chyfathrebu digidol
- Hysbysebu a chyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol
- Ymgyrch deledu a radio
- Cyfryngau print
- Cyfathrebu uniongyrchol â phartïon â buddiant

Bydd gweithgareddau sy'n defnyddio'r cyfrwng hwn drwy gydol y flwyddyn yn arwain at weithredu'r ddeddf ym mis Rhagfyr, yn ogystal ag ar ôl i'r ddeddf gael ei gweithredu i atgoffa pobl am eu hymrwymiadau a'u hawliau. Mae'r driniaeth greadigol wedi'i chynllunio i gynnwys tenantiaid a landlordiaid a'u gwneud yn ymwybodol o'r newidiadau sydd ar ddod, gan eu cyfeirio i'r wefan am ragor o wybodaeth.

# Eich Cymorth

Fel rhanddeiliad neu grŵp â buddiant, hoffem eich cymorth i ledaenu negeseuon yr ymgyrch, a helpu'ch rhanddeiliaid i ddeall sut bydd y Ddeddf yn effeithio arnyn nhw, a ble i gael hyd i wybodaeth.

Mae'r 'Pecyn Rhanddeiliaid' wedi'i greu i roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac mae'n cynnwys ystod o asedau, templedi, a chanllawiau ar rannu'r negeseuon. Byddwn yn diweddaru'r pecyn wrth i wybodaeth ac asedau newydd fod ar gael a byddwn yn rhoi gwybod i chi pan ychwanegir gwybodaeth newydd.



# Rhannu'r Negeseuon

**Un o'r ffyrdd hawsaf o rannu'r negeseuon a lledaenu'r gair yw trwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol.**

Gallwch rannu unrhyw asedau neu ddolenni sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn hwn â'ch cynulleidfaoedd ar-lein ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun, neu drwy rannu'n uniongyrchol y postiadau rydym ni'n eu cyhoeddi ar brif dudalen Facebook Llywodraeth Cymru:

**https://www.facebook.com/welshgovernment**

neu ar gyfrif Twitter Cymunedau Llywodraeth Cymru:

**https://twitter.com/WG_Communities**

Os byddwch yn postio ar Twitter, tagiwch y cyfrif uchod a defnyddiwch yr hashnod **#NewidRhentu**

Rydym wedi creu dogfen Canllawiau Rhannu sydd ar gael yn y Pecyn sy'n rhoi canllaw cam wrth gam ar rannu postiadau cyfryngau cymdeithasol.

Ar y tudalennau canlynol gwelwch chi bostiadau cyfryngau cymdeithasol sy'n barod i'w defnyddio hefyd ac asedau ategol i'w postio'n syth o'ch sianeli cyfryngau cymdeithasol eich hun. Dylai postiadau cyfryngau cymdeithasol gynnwys dolen i dudalen hafan yr ymgyrch: **https://llyw.cymru/rhentucartrefi**, sef y pwynt gwybodaeth cyntaf ar gyfer unrhyw ymholiadau, cwestiynau neu bryderon am y Ddeddf a sut mae'n effeithio arnoch chi a'ch rhanddeiliaid.

*Cliciwch yma ar gyfer ein dogfen Canllawiau Rhannu*



# Postiadau cyfryngau cymdeithasol i'w rhannu â landlordiaid

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithio gyda'n gilydd
i roi cartref diogel i bawb

# Asedau’r ymgyrch i’w r̂hannu a landlordiaid

Mae postiadau cyfryngau cymdeithasol ar gael i chi eu rhannu â’ch rhwydweithiau. Os byddwch yn rhannu negeseuon, tagiwch ni gan ddefnyddio’r ddolen isod a chynnwys yr hashnod **#NewidRhentu**

Hefyd, os nad ydych yn gwneud hynny eisoes, a wnewch chi ein dilyn a’n hoffi ni ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol canlynol: **@WG_Communities (Facebook a Twitter)**

Mae’r holl destun cyfryngau cymdeithasol a ddarperir yn y pecyn hwn o fewn yr uchafswm nodau ar gyfer yr holl sianeli cymdeithasol, gan gynnwys Twitter.

Mae asedau creadigol wedi’u creu hefyd i gyd-fynd â’r postiadau cyfryngau cymdeithasol ac maen nhw ar gael i’w lawrlwytho ac yn addas ar gyfer **Facebook** a **Twitter.**

*Cliciwch yma ar gyfer asedau’r ymgyrch*



# Asedau'r ymgyrch i'w ŕhannu a landlordiaid

**Postiadau cyfryngau cymdeithasol**

Rydym wedi casglu awgrymiadau o bostiadau cyfryngau cymdeithasol at ei gilydd i'ch helpu i gefnogi'r ymgyrch ar draws eich sianeli. Mae croeso i chi addasu'r rhain ar gyfer eich cynulleidfa. Mae'r holl bostiadau yn addas ar gyfer Facebook a Twitter. Gellir defnyddio unrhyw gyfuniad o opsiynau cynnwys gweledol cymdeithasol (hysbysebion carwsél/ lluniau llonydd) gyda'n hawgrymiadau o destun cyfryngau cymdeithasol.

*Cliciwch yma ar gyfer asedau'r ymgyrch*

**O 1 Rhagfyr 2022**, bydd Deddf Rhentu Tai (Cymru) yn gwella sut rydym yn rhentu yng Nghymru. Cliciwch i gael gwybod mwy: **llyw.cymru/rhentucartrefi**

**From 1 December 2022**, The Renting Homes (Wales) Act, will improve how we rent in Wales. Click to find out more: **gov.wales/rentinghomes**

**Mae'r ffordd rydych chi'n rhentu yn newid...** P'un a ydych chi'n landlord neu'n denant, mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth mae'r newidiadau'n ei olygu i chi.

**The way you rent is changing…** if you're a landlord or a tenant, it is important to know what the changes mean for you.

**Landlordiaid:** ydych chi'n barod am y newid i'r gyfraith? Dysgwch beth mae angen i chi ei wneud nesaf trwy fynd i **llyw.cymru/rhentucartrefi**

**Landlords:** are you are ready for the change in law? Find out what you need to do next by visiting **gov.wales/rentinghomes**

# Asedau'r ymgyrch i'w rhannu a landlordiaid

Asedau cyfryngau cymdeithasol

Hysbyseb deledu 30 eiliad (ffilm Arwr)




Ffilm egluro (Cyffredinol)




Ffilm egluro (Contractau)




*Cliciwch yma ar gyfer asedau'r ymgyrch*

# Asedau’r ymgyrch i’w r̂hannu a landlordiaid

Asedau cyfryngau cymdeithasol

Llonydd:




Carwsél:













*Cliciwch yma ar gyfer asedau’r ymgyrch*

# Asedau'r ymgyrch i'w rhannu â landlordiaid

**Un dudalen ar gyfer landlordiaid**

Rydym wedi creu un dudalen sy'n amlinellu'r ffyrdd y bydd y gyfraith newydd yn effeithio ar landlordiaid a'r camau y mae angen iddynt eu cymryd i gydymffurfio. Byddai hon yn addas ar gyfer postio ar wefan neu flog, neu i'w chynnwys mewn cylchlythyr.

*Cliciwch yma ar gyfer asedau'r ymgyrch*


1 Rhagfyr 2022

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**MAE'R FFORDD RYDYCH CHI'N RHENTU YN NEWID**

**Dyma beth mae angen i landlordiaid ei wneud...**

**Trosi tenantiaethau presennol**

Gall contractau meddiannu ddechrau ar lafar, ond mae'n rhaid cyflwyno datganiad ysgrifenedig o'r contract i'r holl ddeiliaid contract (mae hyn yn disodli'r cytundeb tenantiaeth neu drwydded presennol).

**Bod yn ymwybodol o gyfnodau rhybudd newydd ar gyfer adfeddu**

Rhybudd heb fai (contractau safonol cyfnodol yn unig) – o leiaf chwe mis ar gyfer contractau meddiannu newydd, ac ni ellir ei gyflwyno o fewn chwe mis cyntaf y meddiannu.

Toriadau: Dim cyfnod rhybudd ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol (gallwch wneud cais i'r llys ar unwaith ar ôl cyflwyno'r rhybudd); 14 diwrnod ar gyfer ôl-ddyledion rhent difrifol (ôl-ddyledion o 8 wythnos/2 fis); rhybudd o un mis os bydd toriadau eraill.

**Sicrhau bod eiddo yn Ffit i Fod yn Gartref**

Gan gynnwys profion diogelwch trydanol a sicrhau bod larymau tân yn gweithio a bod synwyryddion carbon monocsid yn cael eu darparu.

**Adfeddu eiddo gwag**

Heb fod angen gorchymyn llys, ar ôl cyflwyno rhybudd o bedair wythnos.

**Gellir ychwanegu neu ddileu deiliaid contract**

Heb fod angen diweddu'r contract presennol a dechrau un arall.

**Gwell hawliau olynu sy'n golygu bod hawl gan ddeiliad contract drosglwyddo ei gartref**

(Hyd at ddwywaith) i bobl eraill sy'n byw gyda nhw (gan gynnwys priod, plant sy'n oedolion neu ofalwr) os bydd yn marw.

**Ewch i llyw.cymru/rhentucartrefi**

**Gweithio gyda'n gilydd i roi cartref diogel i bawb**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Asedau'r ymgyrch i'w rhannu â rhentwyr

Gweithio gyda'n gilydd
i roi cartref diogel i bawb

# Asedau'r ymgyrch i'w rhannu â rhentwyr

Mae postiadau cyfryngau cymdeithasol ar gael i chi eu rhannu â'ch rhwydweithiau. Os byddwch yn rhannu negeseuon, tagiwch ni gan ddefnyddio'r ddolen isod a chynnwys yr hashnod
**#NewidRhentu**

Hefyd, os nad ydych yn gwneud hynny eisoes, a wnewch chi ein dilyn a'n hoffi ni ar y sianeli cyfryngau cymdeithasol canlynol:
**@WG_Communities (Facebook a Twitter)**

Mae'r holl destun cyfryngau cymdeithasol a ddarperir yn y pecyn hwn o fewn yr uchafswm nodau ar gyfer yr holl sianeli cymdeithasol, gan gynnwys Twitter.

Mae asedau creadigol wedi'u creu hefyd i gyd-fynd â'r postiadau cyfryngau cymdeithasol ac maen nhw ar gael i'w lawrlwytho ac yn addas ar gyfer Facebook a Twitter.

*Cliciwch yma ar gyfer asedau'r ymgyrch*



# Asedau'r ymgyrch i'w rhannu â rhentwyr

**Postiadau cyfryngau cymdeithasol**

Rydym wedi casglu awgrymiadau o bostiadau cyfryngau cymdeithasol at ei gilydd i'ch helpu i gefnogi'r ymgyrch ar draws eich sianeli. Mae croeso i chi addasu'r rhain ar gyfer eich cynulleidfa. Mae'r holl bostiadau yn addas ar gyfer Facebook a Twitter. Gellir defnyddio unrhyw gyfuniad o opsiynau cynnwys gweledol cymdeithasol (hysbysebion carwsél/ lluniau llonydd) gyda'n hawgrymiadau o destun cyfryngau cymdeithasol.

*Cliciwch yma ar gyfer asedau'r ymgyrch*

O 1 Rhagfyr 2022, bydd Deddf Rhentu Tai (Cymru) yn gwella sut rydym yn rhentu yng Nghymru. Cliciwch i gael gwybod mwy: **llyw.cymru/ rhentucartrefi**

From 1 December 2022, The Renting Homes (Wales) Act, will improve how we rent in Wales. Click to find out more: **gov.wales/rentinghomes**

**Mae'r ffordd rydych chi'n rhentu yn newid...** P'un a ydych chi'n landlord neu'n denant, mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth mae'r newidiadau'n ei olygu i chi.

**The way you rent is changing…** if you're a landlord or a tenant, it is important to know what the changes mean for you.

Cytundebau symlach, cyfnodau rhybudd hirach a lle diogel i fyw. **Dysgwch beth mae'r gyfraith newydd yn ei olygu i chi.**

Simpler contracts, longer notice periods and a safe place to live in. **Find out what the new law means for you.**

# Asedau'r ymgyrch i'w rhannu â rhentwyr

**Asedau cyfryngau cymdeithasol**

**Hysbyseb deledu 30 eiliad (ffilm Arwr)**



**Ffilm egluro (Cyffredinol)**




*Cliciwch yma ar gyfer asedau'r ymgyrch*

# Asedau'r ymgyrch i'w rhannu â rhentwyr

Asedau cyfryngau cymdeithasol

Llonydd:




Carwsél:













*Cliciwch yma ar gyfer asedau'r ymgyrch*

# Asedau'r ymgyrch i'w rhannu â rhentwyr

**Un dudalen ar gyfer rhentwyr**

Rydym wedi creu un dudalen sy'n amlinellu'r ffyrdd y bydd y gyfraith newydd yn effeithio ar rentwyr. Byddai hon yn addas ar gyfer postio ar wefan neu flog, neu i'w chynnwys mewn cylchlythyr.

*Cliciwch yma ar gyfer asedau'r ymgyrch*


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**1 Rhagfyr 2022**

**MAE'R FFORDD RYDYCH CHI'N RHENTU YN NEWID**

**Dyma beth mae angen i rentwyr ei wybod...**

**Bydd contractau newydd a symlach yn cael eu cyflwyno**

Gelwir tenantiaid a thrwyddedeion yn 'ddeiliaid contract' o dan y gyfraith newydd, a byddan nhw'n cael 'contract meddiannu' yn lle'r cytundeb tenantiaeth neu drwydded presennol.

**Mae'n rhaid i'ch cartref fod yn addas i fyw ynddo**

Mae'n rhaid i'ch landlord osod larwm tân, synhwyrydd carbon monocsid, a chynnal profion diogelwch trydanol rheolaidd.

**Mwy o rybudd o gynnydd i'r rhent**

Bydd y cyfnod rhybudd i gynyddu rhent yn dyblu o un mis i ddau.

**Hawliau cryfach i aros yn eich cartref**

Bydd contractau newydd a gyflwynir ar ôl 1 Rhagfyr yn destun rhybudd o chwe mis neu fwy, os nad chi sydd ar fai ac mae'ch landlord yn dymuno adfeddu'r eiddo (a elwir yn 'troi allan heb fai' yn aml). Hefyd, ni chaiff eich landlord gyflwyno rhybudd o chwe mis hyd nes i chi fod wedi byw yn yr eiddo am chwe mis. Mae hyn yn golygu y byddwch yn sicr o fod â hawl meddiannaeth o flwyddyn o leiaf.

**Atal troi allan er mwyn dial**

Ni all eich landlord ofyn i chi adael dim ond oherwydd eich bod wedi cwyno bod cyflwr eich cartref yn wael (er enghraifft, mae'ch boeler wedi torri). Cyfeirir at hyn weithiau fel 'troi allan er mwyn dial'.

**Gellir ychwanegu neu ddileu deiliaid contract**

Yn haws o'r contract. Mae hyn yn golygu os bydd cyd-ddeiliad yn gadael y contract, na fydd perygl y byddwch yn ddigartref.

**Mwy o hawliau i drosglwyddo'ch cartref os byddwch yn marw**

Mae'r 'hawliau olynu' hyn yn cynnwys eich partner neu blant sy'n oedolion os byddan nhw'n byw gyda chi.

**Ewch i llyw.cymru/rhentucartrefi**

**Gweithio gyda'n gilydd i roi cartref diogel i bawb**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Asedau ychwanegol

Gweithio gyda'n gilydd
i roi cartref diogel i bawb

# Asedau ychwanegol

## Taflen i'w hargraffu


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

1 Rhagfyr 2022

MAE'R FFORDD RYDYCH CHI'N RHENTU YN NEWID

i denantiaid a landlordiaid

O 1 Rhagfyr 2022, bydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn newid y ffordd y mae landlordiaid yng Nghymru yn rhentu eu heiddo.

Mae'r gyfraith newydd yn symleiddio cytundebau, yn gwella cyflwr cartrefi rhent yng Nghymru ac yn cynnig mwy o sicrwydd a diogelwch i denantiaid a landlordiaid.


Beth mae'r gyfraith newydd yn ei olygu i mi?

Tenantiaid

O dan y gyfraith newydd, bydd tenantiaid a thrwyddedeion yn dod yn 'ddeiliaid contract'. Bydd 'contractau meddiannaeth' yn disodli cytundebau tenantiaeth. Bydd y gyfraith newydd yn ei gwneud yn haws rhentu ac yn rhoi mwy o ddiogelwch.

Ar gyfer deiliaid contract, bydd hyn yn golygu:

- cael contract ysgrifenedig sy'n nodi eich hawliau a'ch cyfrifoldebau
- cynnydd yn y cyfnod rhybudd 'dim bai' o ddau i chwe mis
- mwy o warchodaeth rhag troi allan
- gwell hawliau olynu, mae'r rhain yn nodi pwy sydd â hawl i barhau i fyw mewn annedd, er enghraifft ar ôl i'r tenant presennol farw
- trefniadau mwy hyblyg ar gyfer cyd-ddeiliaid contractau, gan ei gwneud yn haws ychwanegu neu ddileu eraill ar gontract meddiannaeth

Landlordiaid

Bydd angen i bob landlord cymdeithasol a phreifat, gan gynnwys y rhai sy'n rhentu eu heiddo drwy gwmnïau neu asiantau rheoli, wneud y canlynol:

- cydymffurfio â'r gyfraith newydd
- diweddaru eu heiddo a'u gwaith papur yn ôl yr angen

Ar gyfer landlordiaid, bydd hyn yn golygu:

- System symlach, gyda dau fath o gontract: 'Diogel' ar gyfer y sector rhentu cymdeithasol a 'Safonol' ar gyfer y sector rhentu preifat.
- Sicrhau bod cartrefi'n addas i bobl fyw ynddyn nhw. Bydd hyn yn cynnwys profion diogelwch trydanol a sicrhau bod larymau mwg sy'n gweithio a synwyryddion carbon monocsid yn cael eu gosod.
- Mae modd adfeddiannu eiddo sydd wedi'i adael heb fod angen gorchymyn llys.

Beth ddylwn ei wneud nesaf?

Rydym ni'n awyddus i'r newid hwn fod mor ddidrafferth â phosibl i bawb.

P'un a ydych chi'n landlord neu'n denant, mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth mae'r newidiadau'n ei olygu i chi.

I gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r gyfraith yn newid ewch i https://llyw.cymru/mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi neu siaradwch â'ch landlord.

Gweithio gyda'n gilydd
i roi cartref diogel i bawb

*Cliciwch yma i lawrlwytho*

## Poster i'w hargraffu




*Cliciwch yma i lawrlwytho*

# Asedau ychwanegol

**Logos**

Rydym yn hapus i chi ddefnyddio galwadau i weithredu yr ymgyrch ac elfennau graffig eraill yn eich cyfathrebiadau, ar yr amod nad ydych yn eu hymestyn na'u hanffurfio na'u newid mewn unrhyw ffordd.

Rydym hefyd wedi creu dogfen Canllawiau Brand i roi mwy o fanylion am sut i ddefnyddio'r rhain.

*Cliciwch yma ar gyfer logos*

*Cliciwch yma ar gyfer canllawiau brand*

THE WAY
YOU RENT
IS CHANGING

Visit: gov.wales/rentinghomes

MAE'R FFORDD
RYDYCH CHI'N
RHENTU YN
NEWID

Ewch i: llyw.crymru/rhentucartrefi

Working together
for a safe home for all

Gweithio gyda'n gilydd
i roi cartref diogel i bawb

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deunyddiau hawdd eu defnyddio

Gweithio gyda'n gilydd
i roi cartref diogel i bawb

# Cefnogi pobl sy'n ei chael yn anodd defnyddio'r rhyngrwyd

Rydym yn awyddus iawn i sicrhau y gall pawb gael y negeseuon a'r wybodaeth am y newidiadau.

Felly, hoffem ni ofyn am eich cymorth ag un peth olaf… **Ydych chi'n ymwybodol o bobl y mae'r newid hwn i'r gyfraith yn effeithio arnyn nhw - yn denant neu'n landlord - a allai ei chael yn anodd gweld yr wybodaeth ar-lein? Os ydych chi, allech chi eu cefnogi mewn un o'r ffyrdd canlynol?**

- Allech chi gynnal sesiwn un i un â nhw lle gallwch chi fewngofnodi i'r wefan a darllen am y newidiadau a'r wybodaeth?
- Ydych chi'n trefnu neu'n cyfrannu at gyfarfod neu grwp rheolaidd lle gallech chi eu cefnogi i weld yr wybodaeth hon hefyd?
- Pan nad oes opsiwn arall, allech chi argraffu'r deunyddiau er mwyn iddyn nhw eu darllen? Yn amlwg gan ystyried effaith hyn ar yr amgylchedd.
- A oes unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen arnoch gennym ni i rannu'r neges hon â chynifer o'ch rhanddeiliaid neu bartïon â buddiant â phosibl?



# Deunyddiau ychwanegol

Cliciwch y dolenni isod i gyrraedd deunyddiau ychwanegol yr ymgyrch

- **Dogfen hawdd ei darllen** - Dogfen hygyrch, hawdd ei darllen yw hon i egluro effeithiau a chanlyniadau'r ddeddf mewn termau syml. Mae hon hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill **yma**
- **Taflenni Braille** - anfonwch e-bost i **rentinghomes@gov.wales** os hoffech gopi
- **Taflenni print bras** - anfonwch e-bost i **rentinghomes@gov.wales** os hoffech gopi
- Dehongliad **Iaith Arwyddion Prydain** o'r ffilmiau Egluro a'r ffilm Arwr







# Diolch yn fawr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gweithio gyda'n gilydd
i roi cartref diogel i bawb